# Cyngor Cymuned LLANBEDROG *Community Council*

## Cofnodion Cyfarfod 27/07/2020 7:00yh – O Bell - COVID-19

Thomas Victor Jones
Iwan Hughes
John Brinley Jones
Evan Glyn Thomas
William Penri Jones
Rhian Parry (Clerc)
Clair Russell Hughes
Greta Hughes
Barbra Warren
D Andrew Parry

**Mae'r Cyfarfod heno yn cael ei gynnal dros y we gyda meddalwedd Zoom yn unol â chyfarwyddiadau COVID-19**

1. **Ymddiheuriadau**
   Derbyniwyd ymddiheuriadau gan William Roger Jones

2. **Datgan Buddiant Ariannol neu Personol**
   John Brinley Jones - datgan buddiant personol i gais C20/0318/38/AC

3. **Cofnodion 29/06/2020**
   Derbyn Cofnodion 29/06/2020 yn gywir (Cynnigwyd: Penri Jones, Eilydd: Victor Jones). Bydd y Clerc yn trefnu eu gyrru i Iwan Hughes (Cadeirydd) yw arwyddo.

4. **Unrhyw Fater Brys**
   - **Llythyr Ymddiswyddo –** Mae'r Cyngor Cymuned wedi derbyn llythyr ymddiswyddo gan Rhodri Owen. Mae wedi derbyn swydd newydd ac ni ellir rhoi digon o amser i'r Cyngor Cymuned yn sgil hyn.
   - **Cais Cynllunio** – Cais C20/0573/38/DT a C20/0541/38/DT yw ychwanegu at y ceisiadau eraill.
   - **Tim Pel Droed** – Mae Arwel Hughes wedi cysylltu gyda'r Cyngor Cymuned i nodi ei fod yn gobeithio cychwyn tîm pêl droed eto yn Llanbedrog. Mae'r Cyngor Cymuned yn gefnogol i hyn ac yn cynnig defnydd y cae chwarae ar gyfer defnydd y clwb.
   - **Blodau –** Diolch i Andrew Parry am ddol a gosod y casgenni newydd ac i Evan Glyn Thomas am waredu'r hen gasgenni.
     Mae Andrew Parry yn cynnig (Eilydd: Victor Jones) i baentio Hysbysfyrddau a casgenni blodau'r pentref yn ystod yr haf. Bydd y Cyngor Cymuned yn talu am y deunyddiau.
   - **SP Manweb plc –** Derbyniwyd siec am £17.85 am rhent tir.
   - **Taliadau Brys –** Mae Claire Russell Griffiths yn awgrymu ac mae Greta Hughes yn cytuno; i beidio â thalu'r anfonebau yma am nad yw wedi eu nodi ar yr agenda gan eu bod wedi eu derbyn ar ôl creu'r agenda; Tyddyn Sachau £164.94 (Blodau) a Diffibriliwr £595.98 (Cabinet Newydd)

5. **Cae chwarae**
   Diweddariad gan Barbara Warren; Mae'r pwyllgor Cae Chwarae yn cyfarfod nos Fercher 29/07/2020 am y tro cyntaf ers covid-19. Bydd Barbara Warren yn adrodd yn ôl i bwyllgor y Cyngor Cymuned.
   Mae yna bryderon ynglŷn â diogelwch y cae chwarae. Nodwyd nad yw yn ddiogel yw ail agor er hyn mae'r giât wedi ei hagor. Mae Iwan Hughes yn cynnig mynd i roi clo ar y giât yn dilyn y cyfarfod.
   Mae Greta Hughes yn bryderus iawn am y sefyllfa ac yn nodi bod eisiau edrych yn ofalus ar ddeddfwriaeth wrth lunio asesiad risg cyn agor manau cyhoeddus.
   Cytunwyd bod angen gwneud asesiad risg unigol i'r cae chwarae, mae'r Clerc yn cynnig edrych ar wybodaeth a dderbyniwyd gan y llywodraeth er gweithredu.

6. **Y Fynwent**
   Dim ond un pris sydd dal wedi dod i law am waith ar y fynwent newydd er bod sawl ymdrech i gysylltu gyda'r ymgynghorwyr gan y Clerc a'r Cadeirydd.

Mae Cynan Consulting yn cynnig £1,450.00 am wneud y cais cynllunio a £1,200.00 am waith arolygu a rheoli prosiect.
Mae'r aelodau yn bryderus hefo sefyllfa'r fynwent yn benodol; Mae'r tir sydd wedi ei nodi ar y Cais cynllunio gwreiddiol yn wahanol i'r hyn sydd ar y gweithredoedd a'r hyn sydd ar y gofrestr tir. Mae'r wybodaeth yma i gyd ar gael gan y Cyngor Cymuned ac mae Evan Glyn Thomas yn cynnig mynd trwy'r holl wybodaeth er cywirdeb. Bydd y Clerc yn danfon y rhain i Evan Glyn Thomas cyn gynted a bod modd.
Mae pryderon am sefyllfa ymddiriedolwyr y fynwent. Mae gwaith cyfreithiol yw gwneud a bydd rhaid gwneud yn siŵr fod yr holl fanylion yn gywir.

7. **Awdit**
   - **18-19** - Mae gwaith yr archwiliad dal i fynd yn ei flaen. Mae'r Clerc wedi gyrru adroddiad cyfrif banc i'r BDO. Mae'r Clerc wedi gwneud sylwadau ar daflen bancio 2019-20 sydd yn datrys y broblem bancio hanesyddol. Bydd angen cysylltu eto yn dilyn gyrru awdit 2019-20 ymlaen. Bydd y Clerc yn dilyn i fynnu ar hyn.
   - **19-20** - Mae'r holl ddogfennau wedi eu harchwilio yn fewnol. Nid yw'r cysoniad banc yn gyd fynd gyda gwybodaeth hanesyddol ond mae'r gwall wedi ei amlygu mewn dogfennau hanesyddol. Bydd angen gwneud nodyn o hyn ar y ddogfennaeth sydd yn cael eu gyrru i'r BDO.
     Mae gan Claire Russell Griffiths nifer o bryderon ynglŷn ag adroddiad yr archwiliad mewnol ac yn awgrymu ac Greta Hughes yn cytuno; gohirio arwyddo'r ffurflen, er cael mwy o wybodaeth ar y materion a gofnodwyd yn adroddiad yr archwiliad mewnol.
     Mae'r Cyngor yn cytuno i hyn ac yn rhoi'r hawl i John Brinley Jones gysylltu gyda'r Uned Archwilio fewnol er derbyn mwy o wybodaeth a threfnu cyfarfod.

8. **Rhestr eiddo**
   Dim diweddariad i'r wybodaeth na dderbynir unrhyw sylwadau gan aelodau'r pwyllgor. Er hynny mae'r Clerc yn gweithio ar fapio'r eiddo ac darganfod gwerth yr eiddo ar gyfer yswiriant.

9. **Llwybrau**
   - **Torri llwybrau –** Bu'r Cyngor Cymuned ofyn i'r ymgymerwr dorri llwybrau ychwanegol a oedd wedi cau. Nodwyd nad oes gan y Clerc gopi o gytundebau torri gwair. Cytunwyd i ofyn i'r ymgymerwyr am gopi o'r cytundeb. Bydd y Clerc yn gweithredu.
   - **Y Delw –** Mae angen gwneud gwaith atgyweirio ar sylfaen y Ddelw. Mae Iwan Hughes a Evan Glyn Thomas yn cynnig mynd i wneud y gwaith yma ar ran y Cyngor Cymuned. Mae'r holl aelodau yn ddiolchgar iawn iddynt am hyn ac yn cadarnhau y bydd yn ad-dalu unrhyw gostau.

10. **Traethau a Toiledau**
    Mae'r Cyngor Cymuned wedi derbyn taliad o £1000 gan yr ymddiriedolaeth genedlaethol am flwyddyn 19-20 o'r diwedd. Bu'r Clerc yn gyrru anfoneb am gyfraniad flwyddyn 2020-21 cyn gynted â phosib yn dilyn gwybodaeth gan Cyngor Gwynedd am ad-daliad gan and oedd yn darparu gwasanaeth am dri mis.
    Nodwyd bod y maes parcio wedi agor 26/06/2020 gan yr ymddiriedolaeth Genedlaethol. Mae'r toiledau bellach wedi agor gyda polisi glanhau cadarn mewn grym.

11. **Cofebion Mynydd Tir y Cwmwd**
    Dim diweddariad.

**12. Coronavirus covid-19**

Er bod canllawiau covid-19 dal mewn grym mae'r rheolau yn newid yn gyson. Bydd y Clerc yn edrych i mewn i oblygiadau hyn a chyfarfodydd wyneb i wyneb y Cyngor Cymuned.

Mae'r Clerc wedi paratoi Asesiad Risg yn defnyddio canllawiau Llywodraeth Cymru ac wedi ei anfon i'r holl amodau. Mae'r Canllawiau yn cyfeirio at weithwyr ond efallai y byddai'n syniad i ddefnyddio'r un polisïau ar gyfer aelodau'r pwyllgor i gyd.

**13. Neuadd y Pentref**

Adroddiad y Trysorydd wedi eu cyflwyno yn ystod cyfarfod Pwyllgor Neuadd y Pentref 6:30yh 27/07/2020. Bydd y pwyllgor yn gyrru gopi o'r adroddiad I'r Cyngor Cymuned er gwybodaeth.

**14. Diffibriliwr**

Yn dilyn cwyn a gafwyd gan Tomos Hughes, Achub Calon Y Dyffryn bod larwm blwch y diffibriliwr yn canu yn aml mae'r diffibriliwr wedi ei osod all-lein gan y gwasanaeth ambiwlans. Golygai hyn na fydd unrhyw un sydd yn ffonio 999 yn cael eu gyrru i ddol y diffibriliwr.

Mae'r diffibriliwr yn gweithio. Mae'r padiau a'r batri o fewn dyddiad hyd at ddiwedd mis Medi ac mae padiau wrth gefn ar gael ac wedi eu lleoli yn y neuadd.

Diolch i Rhodri Owen am drefnu trydanwr i fynd i'r neuadd i ddiffodd y blwch diffygiol. Mae Pryderon gan sawl aelod bod y blwch dal ar wal y neuadd y pentref. Mae Andrew Parry yn cynnig mynd yw tynnu oddi ar y wal. Mae'r Cyngor yn ddiolchgar iddo am wneud hyn.

Mae Claire Russell Griffiths yn cynnig (eilydd; Greta Hughes) nad yw'r diffibriliwr yn ddigon da ac angen ei newid am un Newydd, felly gohirio pwrcasu'r cabinet Newydd er cael prisiau am yr diffibriliwr.

Mae blwch Newydd wedi ei bwrcasu eisoes ac rydym wedi derbyn anfoneb o £595.98 gan Defib Store. Ni fydd y Defib Store yn gyrru'r cabinet Newydd tan maent yn derbyn siec. Mae Cynnig Claire Russell Griffiths (Eilydd; Greta Hughes) ar eitem 4 yn rhwystro talu'r siec.

**Taliadau wedi eu cymeradwyo**

| | |
|---|---|
| **Cyflog y Clerc –** Rhian Parry – Mis Gorffennaf £333.33 | **£333.33** |
| **Rhian Parry** – Ad-daliad inc printio | **£17.72** |
| **ICO** – Diogelu Data, Adnewyddu Aelodaeth | **£40.00** |
| **D Russell** – Torri gwair y Cae Chwarae | **£2,085.00** |

**Taliadau Brys wedi eu gwrthod**

| | |
|---|---|
| **Tyddyn Sachau** – Blodau a hanner casgeni | **£164.94** |
| **Defib Store** - Cabinet Newydd | **£595.98** |

**Taliadau wedi eu Derbyn**

| | |
|---|---|
| **Ymddiriedolaeth Cenedlaethol** – Taliad 2019-20 Cyfraniad Toiledau | **£1000.00** |
| **SP Manweb plc** – taliad 2019-20 | **£17.85** |

**Credid**

| | |
|---|---|
| **Dwr Cymru –** credid ar cyfrif dwr y fynwent yn sgil COVID-19 | **£34.33** |


**Clerc – Rhian Parry • cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com •**
**07748 906 651 • Craig y Mor Ffordd Dewi Sant, Nefyn LL53 6EA**
**Cadeirydd – Iwan Hughes • iwan.hughes2@btinternet.com • 07899 954 031•**

# Cyngor Cymuned LLANBEDROG *Community Council*

## Cofnodion Cyfarfod 27/07/2020 7:00yh – O Bell - COVID-19

### Ceisiadau Cynllunio

**C20/0318/38/AC**
Ty Bach, Llanbedrog, Pwllheli, LL53 7NU
Diwygio amod 2 ar ganiatad cynllunio C16/1347/38/LL er adeiladu'r ty yn unol a cynlluniau diwygiedig
**Sylwadau yn unol a sylwadau'r cais gwreiddiol: Dim gwrthwynebiad ond mynegai pryder bod y datblygiad arfaethedig yn agos iawn i'r afon a bod problemau llifogydd o dro i dro.**

**C20/0536/38/DT**
6 Cae Hendy, Llanbedrog,
Dymchwel modurdy presennol ac adeiladu modurdy Newydd
**Dim Gwrthwynebiad**

**C20/0563/38/LL**
Arwel, Llanbedrog
Codi estyniad llawr cyntaf yn y cefn uwchben strwythur unllawr presennol a chodi estyniad cefn unllawr gwydrog.
**Dim Sylwadau**

**C20/0573/38/DT**
Bedw Arian Glynyweddw, Llanbedrog
Adeiladu anecs a storfa ar gyfer defnydd is-wasanaethol i Bedw Arian
**Dim Gwrthwynebiad**

**C20/0541/38/DT**
Glasgoed Lôn Bribwll, Llanbedrog
Estyniad unllawr cefn
**Dim Gwrthwynebiad**

### Gohebiaeth

1. **Clerks & Council Direct –** Newyddlen
2. **Llywodraeth Cymru** - Straeon partneriaeth yng Ngwynedd
3. **Cyngor Gwynedd** – Llyhyr gan y Prif Withredwr
4. **Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol** - llythyr atodedig gan Julie James AS
5. **BIPBC Ymgysylltu** - Sgwrs COVID
6. **Mantell Gwynedd** - Rhifyn 4 Bwletin
7. **Un Llais Cymru -** Canllawiau ar gyfer rheoli meysydd chwarae awyr agored i blant
8. **Ymgysylltu BIPBC** - Newyddlen 'Sgyrsiau Covid'
9. **Bwletin Gyda'n Gilydd**
10. **Un Llais Cymru -** Newyddlen Etholiadol Mehefin
11. **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr** - Nodyn Briffio Dyddiol COVID-19
12. **Cadwch Gymru'n Daclus** – Newyddlen
13. **Llywodraeth Cymru** - Ailagor meysydd chwarae ac ardaloedd chwarae awyr agored i blant - coronafeirws (COVID-19)
14. **Llywodraeth Cymru** - Gosod yn y Senedd - Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru
15. **Un Llais Cymru -** SAIL

**Clerc – Rhian Parry • cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com •**
**07748 906 651 • Craig y Mor Ffordd Dewi Sant, Nefyn LL53 6EA**
**Cadeirydd – Iwan Hughes • iwan.hughes2@btinternet.com • 07899 954 031•**

# Cyngor Cymuned LLANBEDROG *Community Council*

## Cofnodion Cyfarfod 27/07/2020 7:00yh – O Bell - COVID-19

**Cais am gyfraniad**

1. **O Ddrws i Ddrws** - Cais i ariannu cynllun i ddanfon pobl i'r feddygfa
2. **BOBATH –** Canolfan Therapi Plant Cymru
3. **Ysgol Llanbedrog –** Rhodd i osod polyn fflag
4. **Elusen Ambiwlans Awyr Cymru –** Cais am rhodd.
5. **Cynorthwyo Nyrsys a gwasanaethau lleol Marie Curie -** Cais am gyfraniad
6. **Parêd Dewi Sant Pwllheli –** Cais am gyfraniad
7. **Dawns i Bawb –** Cais am gyfraniad
8. **Theatr Bara Caws –** Cais am gyfraniad
9. **Eisteddfod yr Urdd –** Sir Ddimbych 2020
10. **Victim Support –** Cais am gyfraniad
11. **Elusen Ambiwlans Awyr Cymru -** Cais am gyfraniad
12. **Hosbis Dewi Sant –** Cais am gyfraniad
13. **Llangollen International Musical Eisteddfod –** Cais am gyfraniad
14. **Teenage Cancer Trust Cymru –** Cais am gyfraniad
15. **Grŵp Apêl Uned Cancr a Haematoleg Alaw** – Cais am gyfraniad
16. **Ymchwil Canser Cymru** – Cais am gyfraniad
17. **Tenovus** - Helpu Cynnal Gobaith
18. **Tarian Cymru** - Cais am gyfraniad
19. **Ty Gobaith** – Cais am gyfraniad
20. **Calonau Cymru** - Cais am gyfraniad
21. **Marie Curie** – Cais am gyfraniad

**Penderfynwyd gohirio at bwyllgor wyneb yn wyneb.**

Clerc – Rhian Parry • cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com •
07748 906 651 • Craig y Mor Ffordd Dewi Sant, Nefyn LL53 6EA
Cadeirydd – Iwan Hughes • iwan.hughes2@btinternet.com • 07899 954 031•